Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 466 MEHEFIN/GORFFENNAF 2024 | AM DDIM

## ALUN LENNY – CIP AR FYWYD LLAWN NEWYDDIADURWR

- GARETH RICHARDS, CYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS A'R CYLCH

Y newyddiadurwr radio a theledu profiadol o Sir Gar oedd siaradwr gwadd Mehefin a chawsom lond trol o hanesion difyr ganddo am ei gyfnod fel gohebydd, gwleidydd a chrefyddwr.

Clywsom storiâu am burfa olew oedd ar fin ffrwydro, derbyn galwad ffôn ganol nos gan Feibion Glyndŵr a hela tyfwyr cyffuriau mewn jyngl yng nghanolbarth America, llofruddiaeth John Brynambor, ger Soar-y-mynydd ac Operation Julie yng nghanolbarth Cymru a bod yn angladd Bwystfil Brechfa. Yna'r sgwrs ddifyr gyda Jimmy Carter, cyn-arlywydd U.D.A., a'r cyfarfyddiad anffodus gyda'r Tywysog Siarl a Diana yng nghanol llacs Pensarn, Caerfyrddin adeg llifogydd 1987. A beth am gyfnod cythryblus Margaret Thatcher a Streic y Glowyr? Mae'r holl hanesion yn gofnod pwysig o Gymru ddiweddar.

Ac yng nghanol ei brysurdeb cyfrannodd Alun yn hael fel Cynghorydd Plaid Cymru yng Nghaerfyrddin am ddegawdau, ac fel pregethwr lleyg, arweinydd Bwlch-y-corn a swyddog y wasg Undeb Annibynwyr Cymru.



## CYSTADLU I GYNRYCHIOLI CYMRU

Llongyfarchiadau i'r soprano ddisglair Eleri Gwilym, gynt o Sgeti, sydd wedi ei dewis yn un o bum canwr ifanc a fydd yn cystadlu i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Canwr y Byd 2025.

Cynhelir cyngerdd Canwr Cymru yn Neuadd Dora Stoutzker, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd am 3pm brynhawn Sul 20 Hydref eleni.

Eleri, sydd bellach yn byw yn Llundain, fydd yr unig ganwr o dde Cymru. Gogleddwyr yw'r pedwar arall, sef y tenoriaid Ryan Vaughan Davies ac Emyr Lloyd Jones, a'r ddwy soprano Eiry Price ac Erin Gwyn Rossington.

Mae modd prynu tocynnau (£16 - £22) drwy ffonio'r Swyddfa Docynnau ar 029 2039 1391



# COFIO CAMPAU ARLOESOL ABERTAWE

-ANDREW GREEN

Mae Abertawe wrthi'n dathlu carreg filltir fawr yn ei hanes, gyda llyfr sylweddol sy'n adrodd hanes cymdeithas arloesol nodedig a'i champau dros gyfnod maith.

Erbyn diwedd y 1830au roedd gweithfeydd copr yr ardal yn allforio eu cynnyrch ledled y byd. Ar yr un pryd, denai'r dre nifer sylweddol o wyddonwyr a pheirianyddion - pobl enwog yn eu maes. Yn 1835 fe ddaethon nhw at ei gilydd i ffurfio Cymdeithas Athronyddol a Llenyddol Abertawe, y Swansea Philosophical and Literary Society. Dyma, yn ôl pob tebyg yw'r gymdeithas wirfoddol hynaf yng Nghymru sydd â hanes parhaol.

Gyda theitl newydd a gafodd gan y Frenhines Victoria yn 1838, sef y Royal Institution of South Wales (RISW), mae'n dal i ffynnu hyd heddiw. Ymhlith y sawl a ffurfiodd y gymdeithas newydd roedd nifer o brif ddiwydianwyr Abertawe. Un ohonyn nhw oedd John Henry Vivian, a astudiodd yn yr Almaen, gan ddatblygu technegau arloesol yn ei waith copr yn yr Hafod, ar un adeg y gwaith copr mwyaf yn y byd. Yn gyfoethog iawn, roedd teulu'r Vivian yn byw ar ystad Singleton, bellach yn safle parc y ddinas, campws prifysgol ac ysbyty cyffredinol.

Bu un arall, Lewis Weston Dillwyn yn rhedeg crochendy enwog, sef y Cambrian Pottery, ond hefyd ysgrifennai lyfrau pwysig am fotaneg. Roedd Dillwyn yn aelod amlwg o Gymdeithas y Cymreigyddion a sefydlwyd yn 1828: dyma adeg pan oedd nifer fawr o siaradwyr Cymraeg, yn arbennig yn y plwyfi y tu allan i'r ddinas ei hun, megis Llangyfelach. Byddai'r cyfnodolyn Cymraeg Seren Gomer, a lansiwyd yn 1818, yn gwerthu rhwng 1,500 a 2,000 o gopïau, nifer sylweddol y dyddiau hynny.

Bu daearegwyr hefyd - er enghraifft Henry De la Beche, y daearegwr proffesiynol cyntaf yng ngwledydd Prydain a ddaeth ag Arolwg Daearegol Prydain Fawr i dde Cymru. Lluniodd William Edmond Logan o Ganada fap o haenau maes glo'r De.

Byddai boneddigion yr RISW yn ei arddel yn sefydliad ymchwil cynnar, gan rannu eu harbenigedd a chynllunio sut i'w ddefnyddio i wella Abertawe. Un o'u hamcanion oedd 'gwasgaru gwybodaeth yn gyffredinol', ac at hynny trefnid rhaglen flynyddol o areithiau am bob math ar bwnc, a honno'n agored i aelodau o'r Sefydliad ac i'r cyhoedd. Roedd pwyslais cryf ar arloesi mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, gyda'r RISW'n ymdebygu i Brifysgol Abertawe ar raddfa fechan.

O'r dechrau cadwai aelodau o'r Sefydliad amgueddfa, gan roi iddi enghreifftiau o ddaeareg, botaneg, archaeoleg, diwydiant, celf ac agweddau eraill o Abertawe a'r fro. Buan y sylweddolwyd bod angen cartref parhaol a mwy sylweddol. Yn rhyfedd o gyflym llwyddon nhw gynllunio a chodi'r arian ar gyfer adeilad newydd, a'i agor yn 1841 - yr amgueddfa gyhoeddus gyntaf yng Nghymru. Wedi'i gynllunio gan y pensaer o Lerpwl, Frederick Long, roedd ganddi wyneb blaen clasurol, porth a phedair colofn ynghyd â thalog, sef to uwchben ar wedd triongl. Y tu fewn ceid ystafelloedd arddangos, llyfrgell fawr, theatr ddarlithio a labordy gwyddonol.

Profodd Amgueddfa Abertawe amryw hynt a helynt, gan gynnwys distrywio canol y ddinas yn ystod Blitz y Tair Noson ym mis Chwefror 1941. Heddiw mae dan ofal Cyngor Dinas Abertawe. Bob blwyddyn bydd ei staff yn croesawu dros 100,000 o ymwelwyr, hen ac ifainc, i'r adeilad. Ymhlith y casgliadau ceir Hor, mwmi o'r Aifft, nifer helaeth o esgyrn, callestr o ogofeydd Gŵyr, a chynnyrch crochenyddion Abertawe. Ond waethaf modd, dim Lizzie'r eliffant! Fe safai hi am flynyddoedd maith yn y cyntedd cyn cwympo'n ddarnau yn ystod y 1950au a'i llosgi yn yr ardd gefn.

I Dylan Thomas, ymddangosodd yr adeilad yn 'amgueddfa a ddylai fod mewn amgueddfa', ond heddiw mae gan Gyngor Abertawe gynlluniau a chronfeydd i foderneiddio ac ehangu'r adeilad, er mwyn rhoi profiad gwell a rhagor o wrthrychau ar gyfer ymwelwyr.

Er nad yw'r RISW yn berchen ar Amgueddfa Abertawe'r dyddiau hyn, mae bellach yn gweithredu fel sefydliad o gyfeillion iddi, gan gefnogi gwaith yr Amgueddfa a chodi arian er mwyn caffael eitemau newydd. Mae'n dal i gynnal rhaglen fisol o sgyrsiau a digwyddiadau eraill, fel y gwneid ers 1835, yn ogystal â Dydd Hanes a hefyd Ffair Lyfrau, a phob blwyddyn mae'n cyhoeddi cyfrol hanes, y Swansea History Journal.

Yn 2018 penderfynodd yr RISW ei bod yn bryd ysgrifennu 'hunangofiant' cynhwysfawr i ddathlu campau'r sefydlwyr a'r rhai a'u dilynodd. Mae'r llyfr 600 tudalen newydd ei gyhoeddi gan Wasg Prifysgol Cymru, Swansea's Royal Institution and Wales's First Museum. Ceir 23 o gyfraniadau arbenigol, wedi'u golygu gan Helen Hallesy a Gerald Gabb, ac yn disgrifio'n fanwl ddatblygu'r RISW a'r casgliadau yn yr Amgueddfa.

Mae'r gyfrol yn cynnwys cyfoeth o luniau, a llawer o bethau sy'n achosi syndod. Er enghraifft, yn 1848, hyd yn oed cyn i'r rheilffordd gyrraedd Abertawe, llwyddodd yr RISW i berswadio sefydliad o bwys, y British Association for the Advancement of Science, i drefnu ei gyfarfod blynyddol wythnos o hyd yn y dre. Nes ymlaen gweithredodd yr RISW fel 'bydwraig' ar gyfer nifer o gymdeithasau eraill yn Abertawe, neu ddarparu cartref iddyn nhw, yn eu plith Cyfeillion Gŵyr a Theatr Fach Abertawe. Ac er i 'foneddigion' ddominyddu'r RISW cynnar, mae ymchwil yn dangos bod nifer o fenywod nodedig, megis Emily Dix, Audrey Williams a Käte Bosse-Griffiths, wedi chwarae rhan bwysig ar hyd y blynyddoedd yng ngweithgareddau'r RISW a'r Amgueddfa.

Am y tro cyntaf, mae Swansea's Royal Institution and Wales's First Museum, a lansiwyd yn y Guildhall yn Abertawe ar 6 Ebrill, yn gwneud cyfiawnder â phennod bwysig yn hanes Cymru, pan fu Abertawe ar y blaen wrth arwain meddwl gwyddonol, cydweithredu diwylliannol a datblygu diwydiannol.

## ETHOLIAD 60 MLYNEDD YN ÔL: COFIO CHRIS REES

-HEINI GRUFFUDD

Tybed faint sy'n cofio Chris Rees, brodor o Orllewin Abertawe, a fu'n allweddol pan gychwynnwyd system Wlpan dysgu'r Gymraeg? Cafodd ei ysbrydoli gan ddulliau'r Iddewon o ddysgu eu hiaith ar ôl sefydlu eu gwladwriaeth, gan atgyfodi eu hiaith, efallai'r unig enghraifft lwyddiannus yn y byd o atgyfodi iaith.

Cafodd Chris ei godi yn fflatiau Côr-y-môr, sy'n fwy adnabyddus fel Corrymore, Heol Sgeti.

Saesneg oedd iaith ei deulu, a'i gefnder, High Rees, yn Aelod Seneddol dros y Torïaid yng Ngorllewin Abertawe.

Dysgodd Chris y Gymraeg a dod yn genedlaetholwr. Cafodd ei garcharu yn yr 1950au am wrthwynebu gorfodaeth filwrol am ei fod yn geneflaetholwr Cymreig. Roedd yn y carchar yn 1955 pan safodd yn ymgeisydd dros y Blaid yn etholaeth Gwyr.

Daeth wedyn yn ymgeisydd i'r Blaid yn etholaeth Dwyrain Abertawe mewn is-etholiad yn 1963, ac eto yn 1964 ac 1966.

Daeth yn is-lywydd ac yn Gadeirdd y Blaid.

Yn y pen draw daeth yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd a rhedeg y Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion.

Bu farw yn 2001, yn 70 oed.



PROSPECTIVE Parliamentary candidates of Plaid Cymru attended a meeting held at Ty Penry, Swansea, on Saturday. Included in our picture are Mr. Emrys Roberts (general secretary), Miss Elizabeth Morgan, Mr. Roy Lewis, Mr. Chris Rees (Swansea East), Mr. Wynne Samuel (vice-president), Miss Nans Jones (women's organiser), and Dr. J. Gwyn Griffiths.


Llun: o'r Evening Post: Chris Rees yn y canol, Roy Lewis y tu ôl iddo, Wynne Samuel a Gwyn Griffiths ar y chwith iddo, ac Emrys Roberts ar y dde.

## LLWYDDIANT PRYDAIN FAWR

-JANETTE DAVIES, PENNAETH YR ADRAN IEITHOEDD RHYNGWLADOL, YSGOL GYFUN GŴYR

Rydym yn hynod falch o'n disgyblion chweched dosbarth sydd wedi ennill rowndiau Cymru yng ngwobr cyfieithu Anthea Bell a gynhelir gan Goleg Queens Rhydychen. Fe wnaethant hefyd ennill yr ail wobr ar draws y DU.

Dyma'r ceisiadau:- Cyfieithodd Anna destun Sbaeneg i'r Saesneg, cyfieithodd David destun Almaeneg i'r Saesneg, gan ddod yn fuddugol yn ogystal yng nghategori cyfieithu o Ffrangeg i'r Gymraeg. Cyflwynwyd cyfanswm o 16,000 o geisiadau ar draws pob categori. Mae'r rhain yn gyflawniadau eithriadol gan ein myfyrwyr, ac ymfalchïwn yn eu llwyddiannau yng Nghymru ac ar lefel y DU. Da iawn i'r ddau!






## PENCAMPWR CYSTADLEUAETH GOLFF YSGOLION CYMRU

Braf gallu cyhoeddi fod Tomos Williams o Ysgol Gyfun Gwyr wedi ennill cystadleuaeth Golff Ysgolion Cymru ar ddechrau mis Gorffennaf yng Nghlwb Golff Cradock. Saethodd sgôr o 72 sydd ond 1 dros y cwrs. Bydd ef nawr yn cael ei ddewis ar gyfer tîm Ysgolion Cymru a fydd yn herio Lloegr ym mis Medi.

Cymrodd bedwar disgybl arall o'r ysgol ran yn y gystadleuaeth, sydd yn dipyn o gamp gan mai dim ond y 40 golffiwr gorau yng Nghymru oedd yn cael gwahoddiad. Y disgyblion eraill oedd Matthew Lewis, Elgan Rice, Jenson Francis a Marley Francis.

Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonynt.






## LLWYDDIANT LLENYDDOL BRYN TAWE YN YR URDD

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG, YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

Llongyfarchiadau i fl.7-9 ar ennill y cywaith iau yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Thema'r cywaith eleni oedd 'Llanw a Thrai'.

Llongyfarchiadau hefyd i fl.10-13 ar ennill y cywaith hŷn i ddisgyblion o dan 25 oed yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Lluniwyd gwefan yn sôn am ardal Abertawe.





## BRYN TAWE YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD

-HELEDD CLARKE, ADRAN GYMRAEG, YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

Roedd hi'n wych gallu bod yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Meifod eleni gyda chriw brwd a thalentog o Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe. Roedd nifer yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau. Llongyfarchiadau i'r Côr Cerdd Dant, y Grŵp Stepio, Maïwenn Watson, Llywelyn Gannon, Hari James, Arwen Garland, William Jessop, Keira Hopkins ac Evie Barr am eu perfformiadau. Llongyfarchiadau mawr i'r Perfformiad Theatrig i Grŵp am ddod yn 3ydd a'r Dawnsio Greadigol am ddod yn fuddugol. Cafwyd cryn lwyddiant hefyd gyda'r gwaith llenyddol a celf a chrefft. Roedd cyweithiau'r ysgol yn fuddugol ac Alis Rucarean yn 1af a 3ydd am waith ffotograffiaeth a Siwan O'Brien yn ail am waith creadigol 2D. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd! Edrychwn ymlaen yn fawr at Eisteddfod Dur a Môr 2025.







## TAITH I'R SENEDD

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG,
YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

Cafodd disgyblion Blwyddyn 8 Ysgol Bryn Tawe gyfle i ymweld â'r Senedd yng Nghaerdydd mis diwethaf. Aeth un daith ddydd Mawrth ac un arall ddydd Iau. Cawsant daith o gwmpas adeilad y Senedd a'r cyfle i gynnal dadl yn yr hen siambr. Hyfryd hefyd oedd mwynhau hufen ia yn haul Bae Caerdydd cyn dychwelyd nôl i'r ysgol





## CWIS LLYFRAU

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG, YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

Llongyfarchiadau i dimau Cwis Llyfrau Ysgol Bryn Tawe! Bu'r ysgol yn rhan o ddiwrnod o drafod llyfrau gydag Ysgol Gyfun Gŵyr, Ysgol Gyfun Ystalyfera ac Ysgol Gyfun Bro Dur. Cymysgwyd disgyblion o bob ysgol i ffurfio timau. Da iawn i Lois a Tirion am fod yn rhan o dîm buddugol Bl.9 ac i Leyla a Hollie am fod yn rhan o dîm buddugol Bl.7! Llongyfarchiadau hefyd i Hollie am ennill siaradwr gorau Bl.7! Diolch i Ysgol Bro Dur am gynnal y gystadleuaeth eleni ac i'r Athro Tudur Hallam ac Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe am feirniadu!





## YMWELIAD Â'R YSGOLION CLWSTWR

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG, YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

Diolch yn fawr i Ysgolion Clwstwr Bryn Tawe am groesawu holl ddisgyblion blwyddyn 7 Bryn Tawe yr wythnos hon i ddarllen llyfrau a grëwyd ganddynt yn adrodd chwedlau Cymru. Paratôdd disgyblion blwyddyn 7 lyfrau hyfryd yn adrodd chwedl Branwen, Blodeuwedd, Gelert, Tir Na-Nog, chwedl y ddwy ddraig a Chantre'r Gwaelod. Diolch i'r ysgolion cynradd am eu croeso cynnes!





## TAITH I EISTEDDFOD LLANGOLLEN

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG, YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

Aeth criw o ddisgyblion Ysgol Bryn Tawe ar daith wobrwyo i Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Ymysg y criw oedd disgyblion o flwyddyn saith i ddeuddeg. Hyfryd oedd cwrdd â phobl o wledydd ar draws y byd ar faes Llangollen ac uchafbwynt y dydd oedd gweld Owain a Tirion yn ennill gwobrau Awdur Heddwch fel rhan o Seremoni Heddychwyr Ifanc 2024 o dan adain Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru ar lwyfan y Brifwyl. Diolch yn fawr i Goleg y Bala am y croeso a gawsom yno nos Iau. Yna, fore Gwener, cawsom y cyfle i weld Llyn Tryweryn ac ymweld â'r Ysgwrn.





# NEWYDDION MENTER IAITH ABERTAWE

## CYNLLUNIAU CHWARAE

Mae Cynlluniau Chwarae mynediad agored Menter Iaith Abertawe a Cyngor Abertawe yn dychwelyd eto dros wyliau'r Haf!
Our open access Welsh language play schemes return again over the Summer Holidays!
22/07 - 24/07
10:00 - 12:00
Ysgol Gyfun Gŵyr, Stryd Talbot, Tregŵyr, Abertawe, SA4 3DB




## TWTS TAWE

Dewch i gael hwyl a chreu ffrindiau newydd!
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau / National Waterfront Museum
Dydd Llun + Mercher: 13:15 - 14:15
Oed - 0 - 3
Am Ddim!




## BORE COFFI MWMBWLS

Cyfle newydd i ymarfer dy Gymraeg yn y gymuned! Ymuna gyda'r criw fydd yn cyfarfod yn fisol am sgwrs dros baned!
Love you a Latte, 50 Newton Rd, Mwmbwls, SA4 4BQ
10 - 11
Dydd Sadwrn 1af y mis
Sesiwn nesaf, 03/08




## DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

26.07 - Mei Gwynedd a Band Tŷ Potas (Parc Waverley, Clydach)
21.09 - Ynys + Mojo JNR (Elysium Gallery)
26.09 - Bwncath + Dadleoli (The Bunkhouse)
17.10 - Das Koolies (The Bunkhouse)










Tocynnau:www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Mehefin/Gorffennaf.
Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst erbyn Gorffennaf 29ain trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.


CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

# MEI GWYNEDD
# A BAND TŶ POTAS



## PARC WAVERLEY, CLYDACH

**26.07.24 - 19:00 - 22:00 - AM DDIM/FREE ENTRY**

MENTERABERTAWE.ORG

SCVS SWANSEA COUNCIL FOR VOLUNTARY SERVICE
CYNGOR GWASANAETH GWIRFODDOL ABERTAWE

RWE

menter iaith
Castell-nedd Port Talbot

menter iaith abertawe